



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref  
David Jones OBE, DL  
Cadeirydd Cymwysterau Cymru

Philip Blaker,  
Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn,  
Casnewydd  
NP10 8UH

24 Ebrill 2020

Annwyl Philip a David

Yn dilyn gohebiaeth flaenorol ynghylch canslo arholiadau TGAU a Safon Uwch haf 2020, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio ar y cyd â swyddogion Cymwysterau Cymru i bennu ffordd o ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol i'r cohort o ddysgwyr a oedd yn disgwyl cwblhau eu cymwysterau galwedigaethol dros yr un cyfnod.

Diben y llythyr hwn yw rhoi'r Cyfarwyddyd amgaeedig i chi sy'n dod o dan Adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Yn ôl y Cyfarwyddyd rhaid ichi roi sylw i bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch canslo arholiadau a phennu graddau o ganlyniad i hynny.

Rwy'n cydnabod bod ceisio cael ateb sy'n bodloni'r amrediad eang o gymwysterau galwedigaethol, y sefydliadau dyfarnu, gan gynnwys amgylchiadau'r dysgwyr, yn fater cymhleth. Rwy hefyd yn ddiolchgar iawn am y maint sylweddol o amser y mae tîm Cymwysterau Cymru wedi'i neilltuo i weithio ar y cyd â'r swyddogion cyfatebol yn y DU dros yr wythnosau diwethaf i fynd â'r gwaith hwn rhagddo.

Y prif flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru yw sicrhau'r amhariad lleiaf ar ddysgwyr a'u galluogi i symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu a'u cyflogaeth, os yw hynny'n bosibl. Fy nod ar gyfer y dysgwyr hynny yw eu bod yn cael eu trin yr un mor deg â'u cyfoedion sy'n astudio ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch, fel yr amlinellwyd yn y polisi a'r cyfarwyddyd a roddwyd i chi ar 6 Ebrill 2020. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod na fydd hynny'n bosibl, nac yn briodol, ym mhob achos. Bydd fy swyddogion yn parhau i gydweithio â chi i ddod i wybod pa ddysgwyr sydd angen cwblhau eu hastudiaethau a'u hasesiadau ar adeg arall, a'u cefnogi yn hynny o beth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA


[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd copi o'r llythyr hwn a'r cyfarwyddyd amgaeedig yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Gwerthfawrogwn pe gallech barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi drwy eich swyddogion am y cynnydd mewn perthynas â gweithredu'r polisi sydd wedi'i amlinellu yn y cyfarwyddyd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

**Kirsty Williams AC/AM**

Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

## **CYFARWYDDYD O DAN ADRAN 53 O DDEDDF CYMWYSTERAU (CYMRU) 2015**

O dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i unrhyw agweddau ar bolisi llywodraeth, a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru, yn cyfarwyddo Cymwysterau Cymru i roi sylw i'r canlynol:

- Polisi Llywodraeth Cymru y dylai dysgwyr, cyn belled â'i bod yn bosibl, a oedd yn disgwyl gael eu hasesu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol rhwng 20 Mawrth a 31 Gorffennaf, gael canlyniadau amcanol ar gyfer y cymwysterau hynny.
- Polisi Llywodraeth Cymru y dylai dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol gael eu trin yn deg, gan dderbyn canlyniadau sy'n adlewyrchu'r gwaith y maent wedi'u gwneud a'u cyrhaeddiad cronol mewn perthynas â'u cymwysterau.
- Polisi Llywodraeth Cymru na ddylai dysgwyr, cyn belled â'i bod yn bosibl, sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol fod o dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion sy'n astudio cymwysterau Safon Uwch a TGAU, o ran gallu symud ymlaen i gam nesaf y dysgu a/neu gael swydd. Cydnabyddir na fydd polisi "un dull sy'n addas i bob cymhwyster" yn briodol, ac efallai y bydd angen addasu'r dull ar gyfer gwahanol gymwysterau.
- Polisi Llywodraeth Cymru y bydd angen oedi fel bod dysgwyr yn gallu cwblhau'r dysgu a'r asesiad, os nad yw'n addas pennu canlyniad amcanol oherwydd bod cael y cymhwyster yn arwyddocaú cymhwysedd galwedigaethol, gan gynnwys "trwydded i ymarfer". Yn yr achosion hynny, yr ystyriaeth bwysicaf fyddai iechyd a diogelwch.
- Polisi Llywodraeth Cymru fod dull teg a chadarn at bennu canlyniadau ar gyfer dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn cael ei roi ar waith. Mae'r polisi'n cynnwys pennu'r dull y mae'n rhaid i gyrff a chanolfannau dyfarnu ei ddilyn i ddod at benderfyniad am gyrhaeddiad dysgwyr. Yn ogystal â sicrhau bod llwybr ar gael ar gyfer y dysgwyr hynny nad ydynt o'r farn bod y broses a ddilynwyd yn un gywir ar gyfer pennu eu canlyniadau.

At ddibenion y Cyfarwyddyd hwn, mae polisiâu Llywodraeth Cymru a ddisgrifir uchod yn berthnasol i bob dysgwr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru (ac eithrio cymwysterau TGAU a Safon Uwch galwedigaethol, y dylech weld y Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd ar 6 Ebrill 2020 amdanynt) mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach, darpariaethau dysgu seiliedig ar waith, a dysgu oedolion yr awdurdodau lleol.